# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 24.06.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.Tudor Owen (Cadeirydd); Bob Anderson; Ieuan Roberts.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:** Ms Cheryl Wright a Mr. Jonathan Wittle (ar ran Coleg Prifysgol Bangor)

**Gwrthwynebwyr**: Dr. a Mrs Barnes; Mr a Mrs Goodwin

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Keith Marshall

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd J.R.Jones

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO BAR UNO, FFORDD FFRIDDOEDD, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan reolwr Bar UNO, Ffordd Ffriddoedd, Bangor i wyro'r drwydded bresennol ar yr eiddo i ganiatáu gwerthiant o alcohol gyda bwyd i aelodau o'r cyhoedd, sef dileu amod a) yn Atodiad 2 ar y drwydded wreiddiol ('*Cyfyngir mynediad i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â Phrifysgol Cymru Bangor yn unig').* Adroddwyd y derbyniwyd llythyr gan yr Heddlu yn datgan nad ydynt yn gwrthwynebu'r cais ; e-byst gan Safonau Masnach ac Adran Cynllunio'r Cyngor yn datgan dim sylwadau a llythyrau gan drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais ar sail amhariaeth sŵn a phryder am gynnydd mewn trafnidiaeth a phobl ar eu ffordd adref yn yr oriau mân. Cyfeiriodd hefyd at y dymuniad i newid amser chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio fel bod yr oriau pan ganiateir hynny yn gyson pob dydd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth fanteisio ar y cyfle i gefnogi'r sylwadau a nodwyd mewn llythyr, datganodd Dr Barnes, un o'r gwrthwynebwyr, ei bryder ynghylch y cais, gan nodi i'r sŵn tu allan i'w dŷ fod yn hunllefus ar sawl noson o'r wythnos yn ystod y tymor academaidd. Mae'r cwsmeriaid yn gadael yr eiddo heibio i Ffordd Ffriddoedd a Menai Drive, lle mae nifer o drigolion yn byw, er y gwelwyd peth gwelliant i'r rheolaeth ffyrdd yn ddiweddar yn dilyn gwaith gan y Brifysgol. Adroddodd iddo gwyno i'r Staff Diogelwch, i'r Heddlu ac i Adran Iechyd yr Amgylchedd ar sawl achlysur yn dilyn

ffrigwd a niwsans cyhoeddus ond na chafwyd ymateb. Mynegodd ddymuniad i weld cwtogi oriau'r drwydded, ond eglurwyd na ellir torri ar oriau trwydded heblaw mewn adolygiad.

Ychwanegodd Mrs Goodwin, gwrthwynebydd arall, ei sylwadau hithau'n gwrthwynebu'r cais, trwy adrodd ei bod hithau wedi cwyno i'r heddlu nifer o weithiau am y sŵn wrth i bobl adael yr eiddo, yn aml hyd at 3.00am. Adroddodd iddi ddeall bod mil yn ychwanegol o fyfyrwyr i ddod i'r ardal yn y dyfodol a bod hynny'n codi pryder am fwy o sŵn yng nghyffiniau Bar UNO o ganlyniad i gerbydau tacsi, loriau'n dadlwytho a casglu poteli gwag. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd nad oes sŵn cerddoriaeth yn cario o'r adeilad.

Wrth gefnogi'r cais, adroddodd yr ymgeisydd mai bwriad y cais yw caniatau i'r cyhoedd ddod i mewn i'r eiddo i gael pryd o fwyd gyda diodydd alcohol os dymunir. Nid yw'n fwriad o gwbl i weld yr eiddo'n cael ei redeg fel tafarn i'r cyhoedd. Ychwanegodd mai un gwyn yn unig dderbyniwyd am sŵn ac anrhefn, a hynny ar noson Dawns Flynyddol y Brifysgol, ac nad oedd yn glir mai cwsmeriaid y Bar UNO oedd yn gyfrifol. Ni wyddai chwaith am fwriad i sefydlu Undeb y Myfyrwyr ar y safle.

Cefnogir y cais gan y Brifysgol, a chadarnhaodd y Rheolwr Dydd y bwriad i sefydlu tŷ bwyta cyfforddus ar gyfer cyfarfod yn gymdeithasol yn hytrach na bar ar gyfer yfed yn unig. Adroddodd bod rheolaeth mewn lle ar gyfer mynediad i fyfyrwyr a'u gwesteion, ac na fyddai'r cyhoedd yn cael mynediad heblaw ar gyfer bwyta. Ychwanegodd i'r rheolwyr drefnu cyfarfod gyda'r cymdogion i drafod unrhyw bryderon, ac y bydd hynny'n digwydd yn rheolaidd yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd yr ymgeisydd mai 300 ar y mwyaf o gwsmeriaid sydd yn yr eiddo fel arfer ar benwythnos, a bod Staff Diogelwch ar ddyletswydd pan fydd digwyddiadau arbennig ymlaen lle disgwylir nifer fawr o gwsmeriaid i fod yn bresennol.

Gadawodd yr ymgeiswyr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelod lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

Ar y cyfan roedd yr aelodau o blaid caniatau'r cais, er y mynegodd un aelod bryder rhag ofn y byddai'r rhai oedd yn cael gwrthod mynediad yn achosi niwsans cyhoeddus, ond derbynir na ellir rhagweld sefyllfa o'r fath.

**PENDERFYNWYD caniatau'r cais fel a ganlyn:**

a) **Newid amser caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio (Paragraff F) i 08.30awr hyd at 01.00awr**
b) **Caniatau mynediad i'r cyhoedd ar gyfer bwyta pryd o fwyd oddi ar y fwydlen**
c) **Caniatau cyflenwi diodydd alcohol (Paragraff M) i'r cyhoedd, ond dim ond pan fo hynny'n cael ei weini gyda pryd o fwyd oddi ar y fwydlen**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-Bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'r hawl i apelio yn erbyn y dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.45am